CRYNODEB GWEITHREDOL – ADRODDIAD YR AROLWG ARCHIFAU CREFYDDOL

- Mae archifau crefyddol yn bwysig i gymunedau ffydd ac i'r gymuned gyfan yn y gwledydd sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Maent yn elfen hollbwysig o'n treftadaeth genedlaethol. Nid yw'r holl gasgliadau o'r fath mor hygyrch â'i gilydd, ond mae'n bwysig eu bod yn cael eu cadw, yn eu holl amrywiaeth, gan eu perchnogion neu'r rhai a'u creodd, yn rhan o'r etifeddiaeth honno. Maent yn cwmpasu ystod eang o bynciau, a lle gellir sicrhau eu bod ar gael i'w defnyddio, maent yn gwasanaethu amrywiaeth o ymchwilwyr, o academyddion i achrestryddion.
- Dylid gwella ac estyn y gefnogaeth sydd ar gael i gynnal yr asedau archifau hyn. Mae angen llenwi bylchau yn yr hyn a gynigir gan sefydliadau casglu. Mae angen sianelu cyngor, arweiniad ac adnoddau i'r broses o ofalu am archifau a gedwir gan y rhai a'u creodd.
- Dylid rhoi anogaeth i gryfhau'r diwylliant o gadw cofnodion ymhlith cymunedau ffydd ac arweinwyr crefyddol neu rai sy'n ffurfio barn lle mae'n llai sefydledig. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn oes ddigidol gan fod angen rheoli cofnodion a fydd yn creu archifau'r dyfodol yn ofalus o adeg eu creu. Hefyd, yng ngoleuni cyfraith elusennol gyfredol, mae angen gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw cofnodion da yng nghyd-destun llywodraethu da. Lle bo cofnodion hanesyddol grwpiau ffydd yn bodoli'n bennaf ar ffurf lafar neu glyweledol, mae angen gwneud trefniadau priodol i'w diogelu at y dyfodol.
- Mae angen eiriolaeth ar lefel uchel mewn oes ddarbodus i godi proffil archifau crefyddol a thynnu sylw'r rhai sy'n llunio barn ac yn creu polisi at eu hanghenion, a hynny o fewn cymunedau ffydd ac yn y wlad yn gyffredinol. Mae'n bwysig bod unrhyw gamau i ddiwallu eu hanghenion yn adlewyrchu amrywiaeth grwpiau ffydd y Deyrnas Unedig heddiw.
- Dylid annog cyrff ariannu i gynnal a chryfhau'r trefniadau ar gyfer gofalu am gasgliadau archifol a'u hygyrchedd (lle bo hynny'n briodol). Byddai hyn yn cydnabod pa mor ganolog yw deunydd o'r fath i hanes y Deyrnas Unedig a'i bwysigrwydd i'n hunaniaeth gyffredin.
- Dylai'r Archifau Cenedlaethol, y Gymdeithas Archifau a Chofnodion, a'r Grŵp Archifau Crefyddol, ynghyd â chyrff eraill sydd â diddordeb parhaus yn y sector archifau crefyddol, geisio darparu cefnogaeth ac anogaeth er mwyn parhau i'w ddatblygu. Dylid cynnal ymchwil ac ymgynghori pellach, a hynny wedi'i dargedu, er mwyn ffocysu cefnogaeth o'r fath yn briodol a sicrhau ei bod yn fwy effeithiol.